Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 24 Hydref 2009
yn Neuadd y Jiwbilî, Llanelwedd

09.26. **Addoli Agoriadol a Chroeso**
Mae'n bleser cael croesawu 21 o Gyfeillion yma heddiw, fel a restrir ar y daflen bresenoldeb. Mae'n ddrwg gennym glywed bod ein clerc cynorthwyol, Lynn Moseley, yn anhwylus ar hyn o bryd ac rydym yn anfon ein dymuniadau da ati am wellhad buan.

Mae'r Cyfeillion canlynol wedi'u penodi gan eu cyfarfodydd ardal i fynychu'r cyfarfod hwn: Gogledd Cymru: Jane Beaton (ataliwyd) a Frank Brown; De Cymru: Erica Hailstone a Malcolm Thomas; Canolbarth Cymru: Dorothy Bell, Gororau'r De: cynrychiolydd heb ei benodi ond mae Joyce Gee wedi cytuno i adrodd.

Mae rhan o gofnod cloi Cynulliad Cyfarfod Blynyddol 2009 wedi cael ei ddarllen yn ystod ein haddoli agoriadol.

09.27. ***Calon* a *The Friend*.**
Rydym yn penodi Rhian Parry (GC) i adrodd ar y cyfarfod hwn i *"The Friend"* ac i *"Calon"*.

09. 28 Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf

(i) Dim ond tystion ydym.
Rydym yn nodi penderfyniad y cyfarfod blynyddol ynglŷn â phriodas rhwng cyplau o'r un rhyw a drafodwyd gennym yn ein cyfarfod diwethaf. Rydym yn cymeradwyo'r llyfryn '*We are but witnesses*' sy'n egluro'r penderfyniad.

(ii) Academi Heddwch Cymru

Bu Wilma Walker a Jane Harries (DC) yn mynychu'r cyfarfod ynglŷn â sefydlu Sefydliad/Academi Heddwch i Gymru. Maent yn ein hysbysu bod deiseb wedi'i dosbarthu'n eang mewn cyfarfodydd yng Nghymru gan sefydliadau heddwch yng Nghymru (Cynefin a CND Cymru). Ar ben hynny, rydym wedi derbyn cofnod gan Gwrdd Lleol Caerdydd sy'n gofyn i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru gefnogi'r fenter hon. Rydym yn gofyn i'r clercod ysgrifennu i ddatgan ein cefnogaeth. Ni all Jane na Wilma fod yma heddiw ond maent wedi cytuno i'n cadw'n hysbys am ddatblygiadau.

(iii) Caplaniaeth y Corfflu Hyfforddiant Awyr
Ysgrifennodd y clerc at Gaplan y Corfflu Hyfforddiant Awyr fel a ofynnwyd. Roedd yn teimlo nad oedd ymwneud â'r gaplaniaeth ymhellach yn briodol o dan yr amgylchiadau.

09.29 Trefniadau 2010.

(i) <u>Dyddiadau ar gyfer 2010.</u>

27 Chwefror: Glantwymyn, Machynlleth

26 Mehefin: Canolfan Weithgareddau, Trefaldwyn

30 Hydref: Tŷ Cwrdd Aberystwyth

Mae'r Pwyllgor Trefniadau'n awgrymu ein bod yn dewis *Cynaliadwyedd* fel prif thema'r flwyddyn i ymdrin ag ef mewn amrywiaeth o ffyrdd. Rydym yn cytuno ar yr awgrym hwn.

Hoffem gael digwyddiad preswyl yn ne Cymru yn 2010 os bydd modd ac rydym yn gofyn am wirfoddolwyr i drefnu hwn.

09.30 Ymestyn Allan a Chyhoeddiadau

(i) Wythnos Ymestyn Allan: Mae Jules Montgomery, ein swyddog gweinyddol, wedi adrodd iddi gael ffrwd gyson o geisiadau am ddeunyddiau ar gyfer ymestyn allan eleni ac mae ei stoc yn dechrau mynd yn brin. Mae cyrddau wedi defnyddio'r ddwy arddangosfa gyfredol. Mae hefyd wedi gallu helpu cyrddau trwy awgrymu eu bod yn cysylltu â chyrddau eraill gerllaw sydd â deunydd addas y gellir ei rannu. Mae'r rhan fwyaf o gyrddau yn gofyn am ddeunydd y gellir ei gydosod yn rhwydd ac sy'n taro'r llygad yn hytrach nag arddangosfa sy'n dibynnu'n ormodol ar y gair ysgrifenedig. Mae Jules yn awgrymu o dan yr amgylchiadau hyn mai'r peth gorau fyddai canslo'r stondinau 'tynnu i fyny' arfaethedig am y tro ac ailasesu popeth sydd ar gael, beth y gellir cael ei fenthyg neu'i gael am ddim o *Friends House*, a phenderfynu o'r newydd beth fyddai'n helpu cyrddau a sut y gellir defnyddio ein hadnoddau ariannol i'w cefnogi. Mae'r sefyllfa'n wahanol iawn i'r hyn a fu ddwy flynedd yn ôl pan benderfynwyd cael stondinau 'tynnu i fyny'. Dylai'r pwyslais fod ar ddeunyddiau bychain y gellir eu trin yn rhwydd. Gellid defnyddio'r arian a glustnodwyd yn wreiddiol ar gyfer y byrddau newydd i gynhyrchu deunyddiau dwyieithog newydd. Rydym yn gofyn i'r pwyllgor enwebiadau gyflwyno enwau 2-3 o Gyfeillion a all gefnogi Jules yn y dasg hon, i weithio â'r cyd-glerc Deborah Rowlands ac yn gofyn i Deborah lunio cylch gorchwyl clir i'r hyn y gofynnir iddynt ei wneud, gan gynnwys amserlen y penodiad.

(ii) Cerdded i Gaerefrog
Cwblhaodd Catherine James ei thaith gerdded i Caerefrog i Gynulliad y Cyfarfod Blynyddol ac roedd yn falch o gael cwmni rhai Cyfeillion am ran o'r ffordd. Mae £600 wedi'u casglu a'u hanfon i'r Sefydliad Meddygol i Ddioddefwyr Artaith.

(iii) Y Gynhadledd Allgymorth Fawr (*Big Outreach*):
Rydym yn gobeithio penodi rhywun i'n cynrychioli yn y gynhadledd hon, 22-24 Ionawr 2010. Byddai o fudd pe bai'r unigolyn hwn yn gallu cynorthwyo Jules Montgomery â'r gwaith cysylltiedig ag adnoddau.

(iv) Cyhoeddiadau.

Roedd dwy daflen newydd a baratowyd gan y Pwyllgor Cyhoeddiadau'n barod ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol eleni: taflen ddwyieithog newydd ar gyfer ymholwyr a phamffled dwyieithog mwy sylweddol ar y Crynwyr ym Meirionnydd.
Mae'r Pwyllgor Cyhoeddiadau wedi awgrymu y dylai gwefan y Crynwyr yng Nghymru gynnwys adran Hanes y Crynwyr. Rydym yn croesawu'r awgrym hwn ac yn gofyn i Jules Montgomery y swyddog gweinyddol weithio ar hyn.

(v) Eisteddfod 2009:
Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yn y Bala ac roedd Crynwyr yn bresennol yn y babell drwy gydol yr wythnos. Cymerwyd copïau o'r ddwy daflen newydd a'r Cynghorion ac Ymholiadau gan nifer o ymwelwyr, a bu ymholiadau gan rai ohonynt yn mynegi eu diddordeb, gan gynnwys trafod penderfyniad Cyfarfod Blynyddol Prydain i ddathlu partneriaethau o'r un rhyw fel priodasau. Roedd Cytûn yn bresennol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ac yn Sioe Frenhinol Cymru ac roedd gennym beth deunydd darllen yno.
Rydym wedi derbyn cofnod gan Gwrdd Lleol Porthmadog sy'n awgrymu ein bod yn meddwl am estyn ein tystiolaeth i ganolfannau eraill yn yr Eisteddfod, megis y Babell Heddwch, fel y bydd mwy o bobl yn dod i wybod am y Crynwyr. Mae tystiolaeth y Crynwyr ym Mhabell Cytûn yn

pwysleisio ein gwaith â Christnogion eraill. Rydym yn gofyn i'n cynrychiolwyr ymchwilio i sut y gallem ehangu ein hymestyn allan mewn ffyrdd eraill yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y dyfodol. Gallem ystyried cael pabell ar wahân yn y dyfodol. Mae cynnal cwrdd addoli yn ffurf werthfawr ar ymestyn allan.

(vi) Eisteddfod 2010

Cynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol ar yr hen safle dur yng Nglynebwy, 31 Gorffennaf - 7 Awst 2010. Rydym yn gofyn i Gyfarfod Ardal Gororau'r De a/neu Dde Cymru benodi rhywun i weithredu fel y cydgysylltydd lleol. Mae Glynebwy'n agos i Gyrddau'r Fenni a Chaerllion.
Hefyd, bydd gan Cytûn babell lle y cawn ein cynrychioli yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, i'w chynnal yn Llanerchaeron, Ceredigion, 30 Mai – 5 Mehefin 2010 ac yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd, Gorffennaf 19 – 22 2010. Bydd yn fuddiol bod Crynwyr yno i ateb cwestiynau sy'n deillio o'n deunydd darllen a fydd ar gael yno.

(vii) Gwefan

Mae'r wefan Saesneg bron â bod yn hollol weithredol ac fe'i defnyddir fel adnodd gwybodaeth i Gyfeillion yn ogystal ag Ymestyn Allan. Mae Jules Montgomery bellach wedi troi ei sylw at y wefan Gymraeg ac yn ei datblygu i ategu'r wefan Saesneg.

09.31 Cyngor Cynrychioladol *Quaker Life*

Rydym wedi ystyried awgrym y gallai fod yn fuddiol cael cynrychiolydd o Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ar Gyngor Cynrychioladol *Quaker Life*. Mae gan *Quaker Life* gyfrifoldeb am Ymestyn Allan, sef un o brif elfennau ein cylch gwaith. Mae Liz Butler, cynrychiolydd *Quaker Life* Cyfarfod Ardal canolbarth Cymru wedi cynnig gweithredu fel y cyd-gynrychiolydd am gyfnod treialu o un flwyddyn gan adrodd yn ôl ynglŷn â pha mor ddefnyddiol yw'r cysylltiad hwn. Rydym yn gofyn i *Quaker Life* gytuno ar hyn a chytuno i dalu hanner ei chostau mynychu, gan gynnwys teithio. Byddwn yn adolygu hyn ar ddiwedd 2010.

09.32. Materion Cytûn

(i) CCB Cytûn:

Mae Eglwys De Korea wedi'i derbyn i aelodaeth Categori b Cytûn, ac mae Siop Lyfrau Eglwysi Ynghyd Caerdydd a'r Oleulong yng Nghaerdydd wedi dod yn aelodau categori c o Cytûn.

Siaradodd Bob Fyffe, ysgrifennydd cyffredinol Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (EYMI), am y sefyllfa ariannol a'r newid pwyslais o fewn EYMI. Y canlyniad yw gostyngiad enfawr, o 36 i 7.3, o ran y staff canolig yn EYMI. Ildiwyd y swyddfeydd ac mae'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn gweithio o gartref. Erbyn hyn mae tri llinyn gwaith: prosiectau, rhwydweithiau a diwinyddiaeth. Mae llawer o waith yn cael ei wneud trwy'r we.

***(ii)* Trefniadau ariannol Cytûn:**

Bellach, ariennir Cytûn trwy gyfraniadau uniongyrchol gan eglwysi unigol. Bydd Cyfarfod Blynyddol Prydain yn parhau i ddarparu ein harian; erbyn hyn yr arian a roddir i Cytûn ac i ACTS yw'r gyfran fwyaf o gyfanswm cyfraniad y Crynwyr i'r holl gyrff eciwmenaidd.

09.33 Memoranda o Ddealltwriaeth/Cofnod Cytundeb â chyfarfodydd ardal yng Nghymru a'r Gororau

Mae cofnod 09.20 yn cyfeirio

Anfonwyd y Cofnod Cytundeb drafft i Gyfarfodydd Ardal Canolbarth Cymru a Gororau'r De. Hyd yn hyn nid ydym wedi cael unrhyw sylwadau manwl gan y cyfarfodydd eu hunain. Fodd bynnag trafodwyd yr holl ddogfen yn fanwl gan y cyfarfod (a gynhaliwyd 22 Medi 2009) a oedd yn

cynnwys clercod a chlercod ymddiriedolwyr pob un o'r pedwar cyfarfod ardal sy'n cynnal cyfarfodydd lleol yng Nghymru, a dosbarthwyd dogfen ddiwygiedig.
Rydym wedi derbyn cofnod gan Ymddiriedolwyr Gogledd Cymru sy'n derbyn y ddogfen ddrafft ond yn awgrymu mai 'Canllawiau ar gyfer Rhyngweithio rhwng Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a Chyfarfodydd Ardal' y dylai'r teitl fod. Rydym yn nodi'r awgrym hwn ond yn teimlo nad yw'n cyfleu'n ddigonol yr eglurder sydd ei angen yn y berthynas rhwng dau gorff elusennol gydag amcanion a chyfrifoldebau sy'n gorgyffwrdd, fel cyfarfodydd ardal a Chyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru.
Rydym yn gofyn i gyfarfodydd ardal gymeradwyo'r ddogfen gyfredol hon a anfonir gennym o dan ei theitl presennol, a gweithio gyda hi yn ystod 2010. Mae clercod cyfarfodydd ardal wedi gofyn cwrdd yn hydref 2010. Dylai cyfarfodydd ardal ddod ag unrhyw newidiadau awgrymedig i'r cyfarfod hwnnw fel y gall y ddogfen fod yn ganllaw i'n cydweithio yn ystod 2011 a thu hwnt.

09.34 Newidiadau Sefydliadol Mewnol

Ymhellach i gofnod 09.19 mae'r clercod wedi drafftio cylch gorchwyl i bwyllgorau a grwpiau Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru gan eu hanfon at y rheini sy'n gwasanaethu yn y grwpiau ac ar y pwyllgorau cyfredol ar hyn o bryd. Mae'r sylwadau a'r awgrymiadau a dderbyniwyd wedi'u hystyried yn ofalus i gynhyrchu dogfennau diwygiedig sydd wedi bod ger ein bron heddiw. Rydym wedi cael y cyfle i edrych ar y rhain ac egluro unrhyw bwyntiau.
(i) **Egwyddorion Cyffredinol**. Rydym yn cytuno â'r egwyddorion hyn i danategu ein gwaith â'n gilydd, gyda mân newidiadau. Maent wedi'u haddasu o'r rheini y cytunwyd arnynt wrth sefydlu strwythur yr is-bwyllgorau ym mis Tachwedd 2004.

(ii) **Cylch gorchwyl i is-bwyllgorau a grwpiau Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru.** Rydym yn cytuno ar gylch gorchwyl y pwyllgorau a'r grwpiau canlynol

- Trefniadau
- Enwebiadau
- Cyhoeddiadau
- Grŵp Ymgynghori ar y Gymraeg

Grwpiau parhaus yw'r tri chyntaf.

(iii) **Enwebiadau.** Rydym yn gofyn i'r pwyllgor enwebiadau gyflwyno enwau Cyfeillion i wasanaethu yn y Grŵp Ymgynghori ar y Gymraeg a llenwi unrhyw fylchau yn y tri phwyllgor arall. Rydym yn gofyn i'r pwyllgorau hyn ddechrau eu gwasanaeth yn 2010 trwy ystyried yn ofalus, gan ymgynghori â'r clercod, yr egwyddorion cyffredinol a'u cylch gorchwyl, gan ddod ag unrhyw newidiadau awgrymedig i'n cyfarfod ym mis Chwefror.

09.35 Cofrestru Elusennol ac Ymddiriedolwyr

Yn ddiweddar rydym wedi derbyn gwybodaeth gan Bwyllgor Stiwardiaeth y Crynwyr sydd wedi cysylltu â'r Comisiwn Elusennau am gyfarfodydd cyffredinol blaenorol a chyrff eraill y Crynwyr a'u statws elusennol. Mae'n debyg nad yw Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru bellach yn bodloni'r meini prawf am statws wedi'i eithrio ac mae'n angen iddo gofrestru. Mae Pwyllgor Stiwardiaeth y Crynwyr wedi amlinellu'r camau y bydd angen i ni eu cymryd cyn cofrestru. Mae'r rhain yn cynnwys mabwysiadu dogfen lywodraethu a phenodi ymddiriedolwyr gyda chylch gorchwyl a gymeradwyir gan y cyfarfod. Mae drafftiau wedi'u paratoi ar gyfer y ddwy ddogfen hyn. Rydym yn cytuno i sefydlu ein pwyllgor cyflogi a'n grŵp cymorth ariannol a phenodi ymddiriedolwyr cysgodol i ystyried yn ofalus y drafftiau sydd wedi'u paratoi ac ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Stiwardiaeth y Crynwyr, ddod â dogfennau diwygiedig i'n cyfarfod ym mis Chwefror.

09.36 Enwebiadau a phenodiadau.

(i) Rhyddhad: mae Dafydd Jones wedi gofyn cael ei ryddhau o wasanaeth ar y pwyllgor cyflogi. Rydym yn diolch iddo am ei wasanaeth ac yn cytuno i'w ryddhau.

(ii) Penodiadau
Mae'r pwyllgor enwebiadau yn cyflwyno'r enwau canlynol i wasanaethu: :

1. **Cyd-glerc**:
2. **Trysorydd**:
3. **Pwyllgor Cyhoeddiadau –**Barbara Prys Williams (cynullydd**)** i orffen 2012 (ei hail gyfnod tair blynedd).
4. **Pwyllgor Trefniadau** - ……..(DC) i orffen 2011 (y tair blynedd gyntaf) Jane Beaton (GC) (ei thair blynedd gyntaf). I orffen 2012
5. **Ymddiriedolwyr:** Gethin Evans Canolbarth Cymru + 3-4 eraill
6. **Gweithgor adnoddau ymestyn allan**

Bydd Enwebiadau'n parhau i chwilio er mwyn llenwi'r bylchau; gellir penodi'r rhain gan y weithdrefn rhwng cyfarfodydd

(iii) Pwyllgor Enwebiadau. Mae'r grŵp chwilio bach a benodwyd gan Gofnod 09.17 (i) ein cyfarfod diwethaf wedi dod ag enw Liz Butler (Canolbarth Cymru) a Ros Morley (Gogledd Cymru) i wasanaethu ar y pwyllgor enwebiadau o 01.01.2010 – 31.12.12. Bydd Liz Butler yn gwasanaethu fel eu cynullydd. Rydym yn cytuno i benodi'r Cyfeillion hyn i wasanaethu.

(iv) Enwebiad fel Llywodraethwr yr Encilfa (penodiad ar gyfer y Cyfarfod Dioddefiadau) Mae'r pwyllgor enwebiadau wedi cyflwyno enw Ann Boot (DC) i'w henwi i wasanaethu fel llywodraethwraig yr Encilfa am gyfnod tair blynedd o 1.1.2010. Rydym yn cytuno i anfon yr enw hwn ymlaen i'r Pwyllgor Enwebiadau Canolog.

09.37. Cyllid

(i) Grant ar gyfer gweinyddu. Fe'n hysbyswyd y bydd y Cyfarfod yn derbyn yr un grant ar gyfer gweinyddu yn 2010 ag yn 2009 (dim codiad costau byw'n unol â chyflogau *Friends House*). Bydd grŵp grantiau Ymddiriedolwyr Cyfarfod Blynyddol Prydain yn asesu'r grant bob blwyddyn.

(ii) Cyllideb. Rydym yn gofyn i'r Trysorydd ddod â chyllideb i'r cyfarfod nesaf wedi'i seilio ar wariant yn 2009. Rydym yn nodi ein bod yn disgwyl tri rhifyn o *Calon* y flwyddyn nesaf, ond y byddant yn cael eu postio i'r cyrddau ar y cyd â'r wybodaeth a anfonir yn arferol cyn pob cyfarfod Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru, gan arwain at ostwng gwariant. Rydym yn diolch i Dave Butler am ei waith wrth ddosbarthu *Calon* dros y chwe blynedd diwethaf.

09. 38. *A Framework for action*.

Rydym wedi derbyn rhai sylwadau ar *A Framework for Action* gan gyfarfod ardal Canolbarth Cymru. Rydym yn croesawu rhagor o sylwadau gan gyfarfodydd ardal eraill, neu le bo'n briodol, gyrddau lleol, fel y gallwn drafod hyn rywbryd yn y dyfodol.

09.39 Llyfr Cyfarfodydd.

Mae'r clercod wedi ysgrifennu gan ofyn bod Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru'n cael ei restru'n gywir a'i fynegeio yn Llyfr Cyfarfodydd 2010**.**

09.40 Grŵp Eiriolwyr dros Waith â Phlant a Phobl Ifainc

Rydym wedi derbyn nodiadau cyfarfod Eiriolwyr dros Waith â Phlant a Phobl Ifainc yng Nghymru a gynhaliwyd 4 Awst 2009. Rydym yn falch o glywed fod y rhwydwaith hwn yn parhau i fod o fudd i'r rheini sy'n cymryd rhan a bod eiriolwraig newydd dros waith â Phlant a Phobl Ifainc (Rachel Culyer) wedi'i phenodi i gyfarfod ardal Canolbarth Cymru.

09.40 Egwyddorion yr Efengyl a Chymdeithas

Mae Geraint Hopkins, Swyddog Polisi Cytûn, wedi cyflwyno'r testun 'Egwyddorion yr Efengyl a Chymdeithas' a thystiolaeth yr eglwysi i'r byd.
Bu'n siarad am agwedd gadarnhaol y Crynwyr tuag at faterion cymdeithasol a'u lle canolog yn eu bywyd a'u gwaith.
Mae Cytûn yn ymrwymedig i gynnal cysylltiadau ag eglwysi a byd y cyfryngau, fel y bydd llais cryf gan eglwysi pan fyddant yn fodlon mynegi eu barn gyda'i gilydd.
Mae gan Cytûn berthynas dda â Chynulliad Cymru ac mae'n gallu cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol – yn wahanol i'r ffordd negyddol arferol o brotestio.
Lle ar gyfer sgwrs a thrafodaeth rhwng eglwysi yw Cytûn, er i'r eglwysi ymwahanu ar hyd y canrifoedd. Mae hefyd yn gweithio drwy bwyllgorau megis y Pwyllgor Rhyngwladol sy'n canolbwyntio'n drwm ar y Dwyrain Canol. Daeth Jill Evans, aelod o Senedd Ewrop, i siarad â nhw am Gaza a byddant yn anfon dirprwyaeth i'r Dwyrain Canol. Maent wedi ysgrifennu i Sri Lanca, i brotestio'n erbyn darostyngiad lleiafrifoedd crefyddol. Dethlir 25ain pen blwydd Dolen Cymru (y cyswllt â Lesotho) y flwyddyn nesaf.
Mae'r Pwyllgor Cyfiawnder Hiliol, ymhlith pethau eraill, yn annog dathlu Dydd Sul Cyfiawnder Hiliol i godi ymwybyddiaeth o'r materion.
Mae Cytûn hefyd yn cydweithio'n agos â Chyngor Rhyng-ffydd Cymru, gan ddymuno adeiladu cymdeithas lle y gall pob ffydd fyw mewn cytgord. Estyn llaw cyfeillgarwch i gredoau eraill yw tystiolaeth Gristnogol Cytûn. Rhaid i ni ddewis yn fwriadol rhwng ofn a chasineb ar y naill law, a gobaith, llawenydd, cariad a goddefgarwch ar y llall.
Mae'r eglwysi weithiau yn rhedeg y tu ôl i'r byd seciwlar, sydd ar brydiau wedi camu ymlaen yn wyneb gwrthwynebiad ffyrnig gan eglwysi - e.e. ynglŷn â rhywioldeb dynol.
Nid ydym yn ystyried yn ddigon agored y pethau sy'n ein rhannu, ond mae Cytûn yn ceisio canolbwyntio ar feysydd lle y mae cytundeb yn hytrach nag anghytundeb. Nid yw'r rheini yn y corff eciwmenaidd fel arfer yn cael eu llethu gan wahaniaeth ond rhaid i ni fod yn ymwybodol ohono. Gall gwahaniaethau o ran cred a ffurfiau ar addoli olygu bod amrywiaeth o eglwysi'n ateb anghenion gwahanol bobl, ond mae'n rhaid i ni symleiddio er mwyn cael gwir ddealltwriaeth rhyngom. Yr hyn sy'n bwysig yw cariad Duw.

Roedd y drafodaeth yn dilyn sgwrs Geraint yn fywiog ac yn bellgyrhaeddol, o agweddau diwinyddol ar gydweithio i effaith yr eglwysi ar faterion cymdeithasol.

Deborah Rowlands
Catherine James,
Cyd-glercod